Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

AMGUEDDFA CYMRU

# Safbwynt(iau): dod â'n straeon at ei gilydd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Safbwynt(iau): dod â'n straeon at ei gilydd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru yn falch o wahodd sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol yng Nghymru (orielau, sefydliadau sy'n comisiynu a chyflwyno) i wneud cais i fod yn rhan o'r rhaglen 2 flynedd unigryw yma.

**5pm ar 8 Mawrth 2023 yw'r dyddiad cau ymgeisio.**

## Cynnwys


Cyflwyniad ....... 3

Cefndir ....... 4

Am y rhaglen ....... 5

Sut gallwch ddefnyddio'r grant? ....... 8

Pwy all ymgeisio? ....... 9

Sut olwg fydd arni? ....... 10

Meini prawf dewis ....... 11

Proses y cais ....... 12

Cymhwystra ....... 16

Hygyrchedd ....... 16

Beth os oes gennyf gwestiwn? ....... 16

Ffyrdd eraill o gysylltu â ni ....... 17


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Cyflwyniad

## Safbwynt(iau): dod â'n straeon at ei gilydd

"Pan sylweddolwn nad oes byth ddim ond un stori am un lle'n unig, adenillwn ryw fath o baradwys" Chimamanda Ngozi Adichiee

Mae Safbwynt(iau) yn gyfle cydweithio newydd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru gyda'r nod o greu newid sylweddol yn y modd y mae sector y celfyddydau gweledol a threftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol ac ethnig ein cymdeithas.

Dros gyfnod o 2 flynedd, bydd gweithwyr proffesiynol creadigol o gefndir diwylliannol ac ethnig amrywiol yn gweithio gydag amgueddfeydd Amgueddfa Cymru a saith sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol i wneud gwaith a llunio arddangosfeydd newydd.

Bydd gweithwyr proffesiynol creadigol ym maes y celfyddydau gweledol yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol ac yn archwilio, cwestiynu a herio ffyrdd cyfredol o feddwl yn y sefydliadau. Byddant hefyd yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol i ddarganfod safbwyntiau a straeon newydd, gyda'r nod o sicrhau newid blaengar ar lefel unigol, gymunedol a sefydliadol.

Bydd partneriaeth a chyd-gynhyrchu yn ganolog i'r rhaglen a fydd yn parhau am ddwy flynedd. Ei diwedd fydd cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus, ymyriadau creadigol, arddangosfeydd ac arddangosiadau ledled Cymru. Bydd y gwersi a ddysgir o'r rhaglen yn cael eu rhannu er mwyn adeiladu sector y celfyddydau gweledol a threftadaeth sy'n decach ac yn fwy cydlynus a chynrychioliadol.

## Cefndir

Menter ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yw Safbwynt(iau).

Mae'r prosiect yn ymateb i'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ym mis Chwefror 2022.

Mae wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hymrwymiad i gyflawni'r nodau yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhan o Raglen Lywodraeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

## Am y rhaglen

Rhaglen unigryw, 2 flynedd o hyd, ar gyfer sector y celfyddydau gweledol a threftadaeth yng Nghymru yw Safbwynt(iau). Mae'n canolbwyntio ar gyd-gynllunio a chyd-greu, gan osod profiad personol yng nghanol cyflawni a datblygu creadigol.

Bydd y cyfle yn cefnogi saith sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol i weithio mewn partneriaeth â saith amgueddfa unigol Amgueddfa Cymru ar draws Cymru.

Gallwch ddysgu rhagor am y saith amgueddfa yma.

Rydym am gefnogi sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol sydd wedi ymrwymo i weithio gyda gweithwyr proffesiynol creadigol ysbrydoledig ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol.

Bydd y partneriad o'r celfyddydau gweledol a'r amgueddfa yn cydweithio i gomisiynu gweithiwr proffesiynol creadigol i greu gwaith newydd a'i gefnogi i fod yn asiant er newid.

Gallai'r gweithwyr proffesiynol creadigol fod yn artistiaid, gwneuthurwyr, curaduron, awduron neu ymarferwyr eraill sy'n gweithio yn y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Bydd y gweithiwr yn gyfaill beirniadol i'r ddau bartner gyda'u cefnogaeth a chan gydweithio â nhw i archwilio, cwestiynu a herio'r gwaith. Bydd y broses yma hefyd yn llywio'r gwaith. Nod y prosiect yw sicrhau newid blaengar ar lefel unigol, weithredol a chyfundrefnol.

Mae prif elfennau o’r rhaglen yn cynnwys:

- Dewis saith sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol drwy broses o alwad agored.
- Bydd y sefydliadau celfyddydol gweledol yn cael eu paru ag un o saith amgueddfa Amgueddfa Cymru i ffurfio partneriaeth.
- Bydd pob un o’r sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru yn cydgynllunio galwad i gomisiynu gweithiwr proffesiynol creadigol a gaiff ei reoli a’i gontractio gan y sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol.
- Bydd y cyfnod o 2 flynedd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus, ymyriadau creadigol, arddangosfeydd ac arddangosiadau ar draws y sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol a’r amgueddfeydd.
- Cynhelir pedwar digwyddiad rhwydweithio yn ystod y prosiect sy’n cynnwys y gweithwyr proffesiynol creadigol, y sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol a’r amgueddfeydd a gallai gynnwys grwpiau a rhanddeiliaid eraill.
- Bydd y gwerthusiad yn cael ei arwain gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru drwy gydol y rhaglen a’i nod fydd lledaenu’r gwersi a ddysgir ymhlith y sector i ddyfnhau dealltwriaeth a phrofiad o’r gwaith.

Un o amcanion comisiynu'r gweithwyr proffesiynol creadigol yw cefnogi unigolion sy'n ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

Rydym yn diffinio 'diwylliannol ac ethnig amrywiol' yn:

- Unrhyw un o'r diaspora Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewrop neu'r Dwyrain Canol yng Nghymru
- Unrhyw un sy'n dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn yn unig
- Unrhyw un o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Yn ogystal â'r flaenoriaeth yma, rydym yn disgwyl i'r cyfleoedd comisiynu gefnogi ceisiadau gan unigolion o gefndir a allai wynebu rhwystrau oherwydd eu rhywioldeb, eu cefndir cymdeithasol ac economaidd neu'r ffaith eu bod yn Fyddar, anabl a/neu niwroamrywiol.

## Sut gallwch ddefnyddio'r grant?

Bydd grant o £60,000 yn cael ei gynnig i'r sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol a fydd yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Nod yr arian yma yw cefnogi:

- Ffi gomisiynu o £25,000 i benodi gweithiwr proffesiynol creadigol am ryw 100 diwrnod dros ddwy flynedd i ymgymryd â gwaith gyda'r sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol ac amgueddfa unigol Amgueddfa Cymru.
- Cyllideb hwyluso o £35,000 ar gyfer gweithgarwch gyda'r sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol i alluogi ymgysylltu, datblygu, cynhyrchu a chyflwyno'r gwaith gyda gweithwyr proffesiynol creadigol.

  Bydd gan Amgueddfa Cymru gyllideb hwyluso ar wahân ar gyfer digwyddiadau, ymyriadau, arddangosiadau ac arddangosfeydd i gefnogi gwaith gweithwyr proffesiynol creadigol ar safle'r amgueddfa unigol.

Yn ogystal, mae gennym gyllideb ddewisol i fynd i'r afael ag unrhyw ofynion hygyrchedd penodol, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu, i sicrhau bod yr unigolion sy'n arwain a darparu gweithgareddau'n cael eu cefnogi. Bydd y costau hyn yn ychwanegol at gyfanswm y grant. Ni fydd y gyllideb yma'n talu am weithgareddau ymgysylltu â chyfranogwyr.

# Pwy all ymgeisio?

Mae Safbwynt(iau) yn agored i sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol yng Nghymru sy'n gweithio yma hefyd.

Dylech chi:

- bod wedi hen ennill eich plwyf ym maes comisiynu gweithwyr proffesiynol creadigol a chyflwyno gwaith celfyddydol gweledol yng Nghymru gydag o leiaf 3 blynedd o brofiad yn y maes.
- bod ar adeg yn eich taith greadigol a gaiff fudd sylweddol o'r gwersi a ddysgir ac o'r datblygiad a gynigir gan y cyfle.
- dangos gwir ymrwymiad a digon o allu i gymryd rhan yn y cydweithio.
- cael rhesymeg glir am y rheswm eich bod am gymryd rhan a sut y bydd eich sefydliad o bosibl yn elwa.

Gall sefydliadau ym maes y celfyddydau gweledol nad oes ganddynt oriel wneud cais os ydynt yn gymwys ac yn bodloni meini prawf y rhaglen.

## Sut olwg fydd arni?

- Datblygu straeon a ffyrdd o gydweithio'n greadigol sy'n darparu hanes cytbwys, dilys a datgoloneiddiedig o Gymru ac adlewyrchiad o Gymru heddiw.
- Ymyriadau a phrofiadau creadigol newydd y bydd y cyhoedd yn eu mwynhau ac a fydd yn eu herio.
- Arian a chyfleoedd i weithio a chael profiad ym maes treftadaeth a'r celfyddydau gweledol i weithwyr proffesiynol creadigol o gefndir diwylliannol ac ethnig amrywiol.
- Adlewyrchu a chydnabod safbwyntiau, profiadau a straeon cymunedau diwylliannol ac ethnig amrywiol, ddoe a heddiw.
- Gwneud lle ac amser i newid fel bod artistiaid, sefydliadau a chymunedau yn gallu siarad â'i gilydd a chynnig syniadau a ffyrdd newydd o weithio gyda'i gilydd.
- Dymchwel rhwystrau a newid diwylliannau sydd ar hyn o bryd yn atal:
    - creu gwaith
    - mynediad at weithiau celf, casgliadau a lleoedd arddangos
    - grymuso cymunedau.
- Gwnewch yn siŵr fod y gwersi a ddysgir ynghyd â'r ffyrdd newydd o weithio'n dod yn ymarfer da i sefydliadau weithio'n fwy creadigol gan gydweithio ag unigolion a chymunedau.
- Dywedwch wrth sector ehangach y celfyddydau a threftadaeth am y gwersi a ddysgir fel y gallant hwythau gymryd rhan yn y sgwrs a gweithredu'n ôl y casgliadau.

## Meini prawf dewis

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:

1. I ba raddau y mae'r cais yn bodloni amcan y rhaglen a dangos rhesymeg glir dros gymryd rhan.

2. Hanes o ennill eich plwyf sy'n dangos rhaglen greadigol gref sy'n ymgysylltu â phrosiectau cymunedol.

3. Y gallu i gymryd rhan sy'n dangos ymrwymiad i rymuso unigolion a sbarduno newid.

4. Hyfywedd y cyfle o fewn yr amserlen a'r adnoddau sydd ar gael.

Yn ogystal â meini prawf dewis, bydd y panel sy'n asesu'r ceisiadau yn ystyried cydbwysedd y profiad ar draws yr holl sefydliadau, y lledaeniad daearyddol ar draws Cymru a'r effaith gyffredinol bosibl ar gyflawni ein hamcanion.

## Proses y cais

1. Bydd angen i chi ddefnyddio ein porth ar-lein i wneud cais. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad i'r porth. Gallwch ddarganfod sut i wneud hynny yma.

2. Os na allwch gael gafael ar y ffurflen ar-lein neu angen rhagor o gymorth, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru.

   Llenwch ffurflen gais Safbwynt(iau) o'n porth ar-lein. Mae'r canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen ar gael ar-lein.

3. Rhaid uwchlwytho eich cais i'r porth fel deunydd ychwanegol.

   Ond nid oes angen i chi amlinellu prosiect penodol yn y cais. Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r gweithiwr proffesiynol creadigol.

   Yn eich cyflwyniad atebwch y canlynol:

   a. Amlinellwch eich rhesymeg wrth wneud cais am Safbwynt(iau).

      - Pam rydych chi eisiau cymryd rhan?
      - Beth ydych chi'n gobeithio ei ennill neu ei gyflawni?
      - Pam mai dyma'r adeg iawn i'ch sefydliad?
      - Nodwch os oes gennych un o'r saith amgueddfa mewn golwg i gydweithio â hi.

b. Rhowch wybodaeth am eich sefydliad a'i hanes o gyflawni ym maes y celfyddydau gweledol. Efallai y byddwch am amlinellu enghreifftiau penodol o brosiectau gwrth-hiliol neu weithgaredd sy'n ymgysylltu ag unigolion a grwpiau cymunedol a'ch profiad o gyflawni hyn.

   Cynhwyswch hyd at bedair enghraifft o waith blaenorol yn lluniau llonydd, dolenni i'ch gwefan neu sioe fideo (3 munud ar y mwyaf) o’ch adnoddau ar-lein fel Fimeo neu YouTube.

c. Amlinellwch eich gallu i gyflawni'r gwaith hwn. Nodwch sut y byddech chi'n cefnogi'r gweithiwr proffesiynol creadigol a'i waith gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid.

   Cynhwyswch fanylion o’r gweithwyr a fydd yn arwain ar y gwaith yn eich sefydliad a'u profiad o wneud hyn. Amlinellwch sut y bydd hyn yn llywio eich gwaith yn ystod a’r tu hwnt i'r prosiect.

d. Cyllideb arwyddol sy'n amlinellu sut rydych chi'n rhagweld defnyddio'r grant. Defnyddiwch y templed cyllideb y mae modd ei islwytho o'r wefan.

Gallai'r gyllideb hwyluso o £35,000 gynnwys y gwariant canlynol:

- Cyflawni gwaith creadigol y comisiwn
- Ffioedd ar gyfer cydweithwyr eraill, er enghraifft, aelodau eraill o'r tîm creadigol: artistiaid, gwneuthurwyr ffilmiau, aelodau o'r gymuned, ymchwilwyr, academyddion, haneswyr, grwpiau eiriol, siaradwyr ac ati
- Hwyluso sgyrsiau cymunedol
- Teithio a chynhaliaeth i weithwyr proffesiynol creadigol
- Deunyddiau ar gyfer digwyddiadau a/neu arddangosfeydd a/neu berfformiadau
- Hyfforddiant a neu fentora (ar gyfer gweithwyr proffesiynol creadigol a/neu sefydliadau)
- Costau gweinyddu (10% ar y mwyaf o gyfanswm y grant)
- Dehongli
- Cyfieithu
- Costau hygyrchedd
- Dogfennu
- Marchnata a hyrwyddo

Gellir uwchlwytho'r deunydd uchod (a, b ac c) fel 4 ochr o A4 ar y mwyaf. Dylech ei gynnwys mewn un ffeil (Word neu pdf) ac ni ddylai'r testun fod yn llai na ffont 12 pwynt ac ni ddylai'r ffeil fod yn fwy na 250MB.

Rhaid darparu'r holl ddeunydd fideo a sain fel dolenni i'ch gwefan, Fimeo neu YouTube. Cofiwch gynnwys gwybodaeth ddiogelwch os yw dolenni'n cael eu diogelu gan gyfrinair.

Ar ôl i ni dderbyn eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch chi.

4. Os yw eich cais yn gymwys, bydd yn mynd ymlaen i gael ei asesu.

   Bydd panel sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a gwahoddedigion yn gyfrifol am ddewis y sefydliadau.

5. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon llythyr derbyn grant atoch.

   Mae penderfyniadau'r panel yn derfynol. Os nad ydych wedi bod yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu i esbonio pam a chynnig cyfle i chi gael adborth.

6. Ar ôl i chi lofnodi a dychwelyd eich llythyr derbyn grant ac rydym wedi gwirio eich manylion, byddwn yn talu 50% o'r grant. Bydd 25% yn cael ei dalu i chi yn ystod y prosiect a byddwn yn talu'r 25% terfynol ar ddiwedd eich prosiect.

**Cewch wybod am ein penderfyniadau erbyn yr wythnos sy'n dechrau ar 20 Mawrth 2023.**

## Cymhwystra

Gall sefydliad cymwys gyflwyno cais. Gallwch weld beth mae hyn yn ei olygu yma.

Os ydych chi'n sefydliad ac mae gennych ar hyn o bryd grant 'byw' ar agor gan y Loteri Genedlaethol gyda ni, rydych chi o hyd yn gymwys i wneud cais. Bydd yn rhaid i chi sicrhau eich bod yn gallu bodloni'r holl feini prawf asesu a bod yn gymwys a dangos y gallwch gyflawni pob prosiect yn effeithiol.

## Hygyrchedd

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth i drafod sut gallwn ni eich helpu gydag anghenion hygyrchedd penodol.

## Beth os oes gennyf gwestiwn?

Os hoffech gael gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu os ydych yn dymuno trafod cwestiynau eraill am y gronfa, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth.

Gallwch wneud hyn drwy e-bost, drwy ein gwefan neu'n cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: drwy lenwi'r ffurflen ar ein gwefan

Byddwn yn gwneud ein gorau i ymateb i bob ymholiad mor brydlon ag y gallwn. Os ydych am i ni eich ffonio yn ôl, rhowch eich rhif ffôn a ffoniwn ni chi yn ôl cyn gynted â phosibl.

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni

Ffôniwch: 03301 242733 (codir pob galwad am gyfraddau lleol)

Oriau: 9am-5pm dydd Llun-dydd Iau, 9am-4.30pm dydd Gwener

Gwefan: celf.cymru

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts